Polisi Addysgu a Dysgu
Ysgol Tryfan

Gweledigaeth yr Ysgol:

Nid llestri i'w llenwi ond llusernau i'w goleuo

Prif nodwedd ysgol effeithiol yw creu cymuned sydd yn sicrhau bod y profiadau addysgu a dysgu a gaiff pob dysgwr yn meithrin dysgwyr gydol oes a dinasyddion cyfrifol. Byddwn yn arfogi ein disgyblion gyda'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial ac i wneud penderfyniadau doeth am weddill eu bywydau.

Mae'r ysgol hon yn hyrwyddo ethos sy'n annog athrawon i:

- roi cynnig ar syniadau/strategaethau gwahanol
- fod yn fodlon mentro wrth gynllunio a darparu gwersi
- rannu'r arferion gorau o fewn cymuned yr ysgol a thu hwnt.

O ganlyniad i hyn ceisir sicrhau cysondeb o ran safonau uchel ar draws yr holl brofiadau dysgu.

GWEITHREDU'R POLISI

Addysgu Effeithiol – Bydd athrawon yn:

- Caniatáu i ddysgwyr gyrraedd eu llawn potensial a phrofi llwyddiant drwy ddysgu mewn amrywiol arddulliau a thrwy brofiadau dysgu heriol a chyfoethog
- Datblygu hunan werth y dysgwyr a'u cynorthwyo i gydweithio'n bositif gydag oedolion a chyfoedion
- Darparu awyrgylch ddysgu symbylus a diogel i ddysgwyr. O dan yr amodau cywir gall POB plentyn wneud pethau rhyfeddol.
- Gosod disgwyliadau uchel ar gyfer POB disgybl er mwyn codi dyheadau a chodi safonau dysgu ac addysgu – mae tystiolaeth gref mai dyma'r agwedd sydd yn cael yr effaith fwyaf ar gyrhaeddiad dysgwr
- Gwneud y broses ddysgu yn glir a thryloyw gan sicrhau fod y dysgwr yn cymryd rhan weithredol
- Adeiladu ar brofiadau dysgu blaenorol tra hefyd yn eu harfogi gyda'r sgiliau angenrheidiol i lwyddo mewn addysg, cymdeithas a byd gwaith yn yr 21ain Ganrif
- Cymell, yn tanio diddordeb ac yn herio dysgwyr.

DEILLIANT Y POLISI

Dysgu Effeithiol - Bydd y disgybl yn:

- Ddysgwr annibynnol a chydweithredol sydd yn dyfalbarhau a chymryd cyfrifoldeb dros ei ddysgu ei hunan
- Hyderus, hyblyg a chreadigol ac yn gallu cymhwyso ei ddysgu i unrhyw sefyllfa
- Meddwl yn rhesymegol drosto ei hunan

- Cymryd rhan yn y broses o gywain a chymhwyso gwybodaeth
- Dangos diddordeb mewn dysgu a balchder yn ei waith ei hunan ac ymdrechion dysgwyr eraill
- Derbyn a defnyddio adborth er mwyn gwella ei gyflawniad yn barhaus
- Gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn deialog dysgu – cynnig syniadau drwy gyfathrebu effeithiol, holi cwestiynau penodol, gwrando a pharchu syniadau a dulliau dysgu disgyblion eraill
- Gallu ymateb yn llwyddiannus i her y tasgau a osodir iddo ac yn benodol yn gallu myfyrio dros ei ddysgu drwy:
    - Gyfuno gwybodaeth flaenorol a newydd
    - Datblygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau dysgu
    - Datrys problemau yn annibynnol ac mewn grŵp
    - Meddwl yn ofalus am ei lwyddiannau a'r agweddau sydd i'w gwella
    - Deall fod dysgu yn medru cynnwys ansicrwydd ac anhawster
- Cyfranogi'n llawn yn y gymdeithas gan barchu gwerthoedd pobl eraill

Conglfeini'r Polisi felly yw:

- addysgu cyffrous a diddorol
- sylw i asesu ar gyfer dysgu a defnydd llawn o feini prawf llwyddiant
- datblygu dysgwyr annibynnol
- addysg cyfrwng Cymraeg sy'n datblygu dysgwyr trylwyr ddwyieithog.